



Cyflwyniad

Yng Nghyfarfod Grŵp Strategaeth yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar 18 Gorffennaf 2024, gofynnwyd am greu trefniadau pontio sy'n amlinellu'r broses ar gyfer symud i weithredu'r ADUS yn llawn. Amlinellir y pwyntiau allweddol isod ar gyfer Byrddau Diogelu a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r broses.

Byrddau Diogelu

- Dylid cynnal yr holl adolygiadau perthnasol (Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Lladdiad Domestig, Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl, Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol) a gychwynwyd ar ôl 1 Hydref 2024 yn unol â [Chanllawiau Statudol ADUS](#) (hyd yn oed os cynhaliwyd y digwyddiadau a'r camau gweithredu sy'n destun adolygiad cyn y dyddiad hwnnw).
- Bydd Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Adolygiadau Ymarfer Plant sydd eisoes ar y gweill cyn y dyddiad hwnnw yn parhau i ddilyn y broses bresennol.
- Unwaith y bydd Cadeirydd y Bwrdd Diogelu yn cytuno y dylid ymgymryd ag ADUS, rhaid i'r Bwrdd Diogelu gysylltu â'r Hwb Cydgysylltu i gael Rhif Cyfeirio Unigryw.
- Rhaid cadw at yr holl [demptedi ADUS](#), llinellau amser a mecanweithiau adrodd perthnasol..
- Dylai'r Bwrdd Diogelu ddefnyddio'r Rhestr Cadeiryddion a Adolygwyr Cymeradwy wrth benodi i'r rolau hyn a chysylltu â'r Hwb Cydgysylltu mewn perthynas â thalu arian ar gyfer adolygwyr sector cyhoeddus (Gwybodaeth am y gronfa newydd hon i ddilyn).
- Bwrdd Diogelu (enwebai) a Chadeiryddion/Adolygwyr i gysylltu â Hwb Cydgysylltu ADUS i gael cyfrinair i sicrhau mynediad i Storfa Ddiogelu Cymru.

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

- Dylai'r holl Adolygiadau Lladdiadau Domestig a gynhelir ar ol 1 Hydref gael eu cynnal yn unol â [Chanllawiau Statudol ADUS](#) (hyd yn oed os cynhaliwyd y digwyddiadau a'r camau gweithredu sy'n destun adolygiad cyn y dyddiad hwnnw), a'u hanfon ymlaen i'r Bwrdd Diogelu perthnasol i'w prosesu.

Byrddau Iechyd

- Dylai'r holl Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl a gynhelir ar ôl 1 Hydref gael eu cynnal yn unol â [Chanllawiau Statudol ADUS](#) (hyd yn oed os cynhaliwyd y digwyddiadau a'r camau gweithredu sy'n destun adolygiad cyn y dyddiad hwnnw), a'u hanfon ymlaen i'r Bwrdd Diogelu perthnasol i'w prosesu.

